



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Terfynau cyflymder

# 20 mya

er mwyn gwneud strydoedd Cymru yn fwy diogel ac iach

Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio cyflwyno terfyn cyflymder cenedlaethol newydd o 20mya ar ffyrdd 'cyfyngedig', sef ffyrdd lle mae terfyn cyflymder ar hyn o bryd o 30mya ac sydd, fel arfer, â goleuadau stryd. Bydd y terfynau cyflymder 20mya newydd yn gwella diogelwch ac yn helpu i wneud strydoedd Cymru yn fwy croesawgar ar gyfer pawb, gan gynnwys plant, cerddwyr a beicwyr.

## Cam 1

Mae wyth lleoliad ledled Cymru yn mabwysiadu'r terfynau cyflymder 20mya yn gynnar, i dreialu ffyrdd o newid y terfyn cyflymder yn ddiraffferth. Mae'r rhain yn cynnwys trawstoriad o leoliadau ledled Cymru, gan gynnwys pentrefi, trefi a dinasoedd, a mathau gwahanol o ffyrdd: **y Fenni a Glannau Hafren yn Sir Fynwy, Canol Gogledd Caerdydd, Bwcle yn Sir y Fflint, Pentref Cilfriw yng Nghastell-nedd Port Talbot, Llandudoch yn Sir Benfro, Saint y Brid ym Mro Morgannwg a Gogledd Llanelli yn Sir Gaerfyrddin.**

Bydd y cam cyntaf hwn yn canolbwyntio ar sicrhau trafodaethau effeithiol â chymunedau, fel bod pobl leol wir yn gwerthfawrogi sut y bydd terfynau cyflymder is yn gwella'r strydoedd lle mae pobl yn byw, ac yn creu cymunedau mwy diogel ac iachach.

**Bydd gostwng y terfyn cyflymder o 30mya i 20mya yn gwneud y canlynol:**

- » Lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu yn ddifrifol.
- » Rhoi rhagor o gyfleoedd i bobl gerdded neu feicio i leoliadau lleol heb deimlo o dan fygythiad gan draffig.

- » Gwella iechyd a lles drwy hwyluso teithio llesol a lleihau llygredd gan draffig.
- » Diogelu a gwella ein hamgylchedd yn lleol ac yn fyd-eang.

Mae terfynau cyflymder is yn golygu bod rhagor o bobl yn teimlo eu bod yn gallu cerdded a beicio; mae rhagor o blant yn gallu cerdded i'r ysgol yn ddiogel, ac mae rhagor o bobl hŷn yn gallu teithio'n annibynnol ac yn ddiogel. Mae tystiolaeth o ledled y byd yn dangos mai cyflymder cerbydau yw'r prif reswm pam nad yw pobl yn cerdded ac yn beicio, nac yn gadael i'w plant gerdded neu feicio i'r ysgol.

Mae ymchwil yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn cefnogi terfyn cyflymder o 20mya.

## Cyflwyno'r terfyn cyflymder newydd yn genedlaethol ym mis Medi 2023

Bydd y terfyn cyflymder o 20mya yn cael ei gyflwyno ledled Cymru yn hydref 2023. O'r dyddiad y mae'r terfyn cyflymder newydd yn dod i rym, os bydd goleuadau ar y stryd, ac nad oes arwyddion yn nodi'r terfyn cyflymder, bydd gyrwyr yn gallu cymryd yn ganiataol mai 20mya yw'r terfyn cyflymder. Gan mai 20mya yw'r terfyn cyflymder diofyn newydd, dim ond ar ffiniau'r terfyn cyflymder 20mya y gwelir arwyddion 20mya.

Bydd arwyddion newydd yn cael eu rhoi ar rannau o'r rhwydwaith ffyrdd lle mae'r terfyn cyflymder yn parhau i fod yn 30mya. Bydd penderfyniadau ynghylch y ffyrdd a fydd yn parhau i fod â therfyn cyflymder o 30mya yn cael eu gwneud ar sail proses 'eithriadau', yn seiliedig ar feini prawf fel niferoedd isel o dai, diffyg ysgolion ac ysbytai, a ffactorau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda GanBwyll a'r Heddlu sy'n gorfodi terfynau cyflymder yng Nghymru, i sicrhau bod y terfynau cyflymder newydd yn cael eu parchu a bod camau i newid ymddygiad gyrwyr yn cael eu cefnogi.

## Sut alla i gael rhagor o wybodaeth?



Gallwch ddarganfod mwy am y cynllun hwn trwy sganio'r cod QR hwn neu ymweld â [llyw.cymru/cyflwyno-terfynau-cyflymder-20mya](https://llyw.cymru/cyflwyno-terfynau-cyflymder-20mya)

